

Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

3 Chwefror 2023

Annwyl Rebecca,

Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2023

Gwnaethom drafod Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2023, ac ymateb Llywodraeth Cymru i'n pwyntiau adrodd drafft, yn ein cyfarfod ar 30 Ionawr 2023. Cafodd ein hadroddiad ei osod gerbron y Senedd yn dilyn y cyfarfod.

Er fy mod yn ddiolchgar am eich ymateb amserol i'r pwyntiau y gwnaethom eu codi yn ein hadroddiad, mae gennym gwestiynau pellach yr ydym yn dymuno eu codi gyda chi.

Mae ein pwynt adrodd technegol cyntaf yn ymwneud ag erthygl 2(2) o'r Gorchymyn, ac yn nodi bod "Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru" yn cael ei fewnosod yn y rhestr o gyrff dynodedig yn yr Atodlen i Orchymyn 2018. Yn dilyn marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II a'i holyniaeth gan Siarl III, ac yn unol ag adran 10 o *Ddeddf Dehongli 1978* (Deddf 1978), roeddem o'r farn bod angen mewnosod "Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru" yn lle hynny.

Mae'r ymateb a gawsom yn gwrthod y farn hon ac yn awgrymu, yn unol ag adrannau 10 a 23 o *Ddeddf 1978*, fod y cyfeiriad at y corff statudol hwn yn cael ei ddehongli fel "Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru".

Yn ein barn ni, ni all fod yn gywir i barhau i gyfeirio at y corff fel corff 'Ei Mawrhydi' pan fo'r sofran bellach yn frenin. Tra bod Deddf 1978 yn sicrhau y bydd deddfwriaeth bresennol yn parhau i fod yn weithredol mewn achos o newid brenhinol, nid ydym yn credu y dylid defnyddio hyn fel cyfiawnhad dros barhau i ddefnyddio term sy'n ffeithiol anghywir wrth wneud deddfwriaeth newydd (neu ddiwygio deddfwriaeth bresennol).



1. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhagor o eglurder ynghylch pam na ddylai'r Gorchymyn newydd hwn gyfeirio at y brenin presennol.
2. At hynny, os derbynnir bod safbwynt Llywodraeth Cymru yn gywir, am ba mor hir yr ydych yn bwriadu parhau i ddefnyddio'r term "Ei Mawrhydi" mewn deddfwriaeth newydd?
3. Pryd y bydd Llywodraeth Cymru (neu Lywodraeth y DU, os yw'n berthnasol) yn dechrau'r broses o ddiwygio enwau'r cyrff perthnasol er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gywir ac yn hygyrch yn y dyfodol?

Mae ein hail bwynt adrodd technegol yn ymwneud ag erthygl 2(2) o fersiwn Gymraeg y Gorchymyn, ac yn nodi nad yw'r cyrff wedi'u rhestru'n gywir yn nhrefn yr wyddor. Dylai "Cyngor y Gweithlu Addysg" ddod cyn "Cymwysterau Cymru" am fod y llythyren "ng" yn dod o flaen y llythyren "m" yn yr wyddor Gymraeg. O ganlyniad, rydym o'r farn bod y disgrifiad o'r gwelliant sy'n nodi y dylid mewnosod y cyrff yn y "lle priodol" yn aneglur.

Unwaith eto, gwrthodwyd y farn hon. Mewn ymateb, dywedwyd wrthym fod erthygl 2(2) o'r Gorchymyn yn defnyddio'r lluosog – "yn y lleoedd priodol mewnosoder" ac "at the appropriate places insert" – a chan fod yr Atodlen i Orchymyn 2018 yn cynnwys rhestr sydd wedi'i llunio yn nhrefn yr wyddor, bydd y pedwar corff a restrir yng Ngorchymyn 2023 yn cael eu mewnosod yn nhrefn yr wyddor yng Ngorchymyn 2018, waeth beth sydd i'w weld yng Ngorchymyn 2023.

4. Byddem yn gwerthfawrogi eich barn ynghylch pam yr ydych o'r farn ei bod yn rhesymol disgwyl i'r darlennydd nodi'r camgymeriad yn y Gorchymyn hwn, sy'n ymwneud â llythrennau yng nghanol dau air, ac yna mewnosod y termau yn y lleoedd cywir yng Ngorchymyn 2018.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn 23 Chwefror 2023.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

